CYMDEITHAS GWAITH MAES
RHIFYN 33
TACHWEDD 2006

Adeiladau yn ein hamgylchedd - Rhan 1

gan Angharad Harris

Ydych chi wedi edrych ar y tai sydd o amgylch eich ysgol erioed? Mae'n siwr mai rhain yw cartrefi eich ffrindiau. Wnaethoch chi erioed feddwl pam fod cymaint o'r tai mor wahanol i'w gilydd? Mae rhai yn hen gyda waliau cerrig trwchus iawn a llechen ar y to. Mae eraill yn gallu bod yn fwy modern ac maent wedi eu gwneud o frics coch, carreg leol, neu bellach wedi eu chwipio gyda cherrig mân.

Beth am yr enwau sydd ar stadau tai neu dai unigol? Pam fod Tŷ'n Maes wedi cael ei roi yn enw ar dŷ er nad oes yna unrhyw 'faes' o'i amgylch; A yw Tan Domen ger tomen ysbwriel, neu a'i 'tomen' yn yr ystyr hanesyddol yw?
Pam y cafodd 'Maes yr Hafod', 'Tŷ Mawr', ac 'Y Wern' eu defnyddio fel enwau ar stadau tai?

Mae cymaint o amrywiaethau mewn tai yn gwneud ein pentrefi, trefi a dinasoedd yn llefydd difyr iawn, a gall yr enwau ar dai, ffyrdd a stadau ddweud llawer wrthym am y modd y mae aneddiadau (y term a ddefnyddir am bentref, tref a dinasoedd) wedi newid dros amser. Os hoffech weld hen fap o eich anheddiad, yna dylech allu cael un o'r llyfrgell leol, neu trwy wefan megis hon Efallai gall y map roi eglurhad i chi dros enwau strydoedd a stadau tai.

Gallwch ddarganfod mwy am dai a dalgylch yr ysgol trwy yn gyntaf edrych ar fap. Mae'n siŵr fod yna fap o'r ardal yn yr ysgol, neu gallwch weld yr ardal am ddim ar y we trwy ddilyn y cyswllt yma. Efallai bod gennych awyrlun o'r ardal o amgylch yr ysgol. Os oes yna un, trïwch sylwi o'r awyr os gallwch ddarganfod tai eich ffrindiau, y parc ble rydych yn chwarae, y ffordd yr ydych yn ei defnyddio i gyrraedd yr ysgol. Fedrwch chi sylwi ar yr un pethau ar fap?

Eich tasg chi yw creu taith gerdded o amgylch tai dalgylch eich ysgol. Rhaid i'r daith fod yn un *ddifyr* rhaid iddi ddangos *gwahanol fathau o dai* ac ni ddylai fod yn fwy na *hanner awr o gerdded.* Bydd y dasg yn gofyn i chi arsylwi ar bethau yn nes ymlaen, ond beth am gychwyn hefo'r pethau sylfaenol yn gyntaf.

Cam 1
Edrychwch ar fap Arolwg Ordnans o'r dalgylch *neu* fynd ar **y wê** (www.ordnancesurvey.gov.uk) a rhoi côd post yr ysgol i mewn.
Bydd yn haws i chi argraffu copi ond cofiwch ofyn yn gyntaf.

Cam 2
Rhaid i'r daith gychwyn a gorffen ger yr ysgol ac mae angen i chi ystyried diogelwch eich ffrindiau. Os ydych am groesi'r ffordd, oes yna groesfan addas gerllaw? Oes yna lwybrau cyhoeddus y gallwch eu defnyddio? Ar gopi o'r map, nodwch lwybr taith ddifyr sydd yn ffitio'r amcanion yma. Gallwch ddefnyddio'r rhestr gyfeirio i wneud yn siŵr eich bod wedi cyflawni pob rhan o'r dasg.

Cam 3
Faint o amser sydd gennych chi? Os am drefnu taith rhaid i chi feddwl pryd yr ydych am gychwyn, faint o amser wnaiff y daith gymryd a pha bryd mae angen i

chi ddod yn ôl. Mae oedolion yn cerdded milltir mewn 20 munud fel arfer, sef tua 1km mewn 12 munud.

Edrychwch ar eich map. Gan ddefnyddio darn o gortyn, neu edau, mesurwch eich taith o'r man cychwyn yn yr ysgol, yr holl ffordd o amgylch ac yn ôl i'r ysgol. Efallai y bydd dal y pen yn ei le gyda phin o gymorth, neu gofynnwch i ffrind helpu. Pan ydych chi wedi gwneud hyn, mesurwch faint o gortyn a ddefnyddiwyd.

Nawr rydych angen edrych ar raddfa'r map i weithio allan y pellter, ac felly gael syniad o faint o amser gymerith y daith.

Mae yna ffordd syml o wneud hyn.....a ffordd ychydig bach yn anoddach. Mi fydda i yn hoffi cadw pethau yn syml felly.....

FFORDD SYML

Bydd graddfa i'w weld ar waelod eich map.
Gosodwch eich cortyn ar hyd y raddfa a cewch weld y pellter yr ydych yn bwriadu teithio.

ond ydych chi eisiau sialens?.....

FFORDD ANODD

Graddfa'r map yw 1:25,000.
Mae hyn yn golygu fod 1 ar y map yn 25,000 ar y llawr
1cm = 25,000 cm neu 250 metr neu ¼ Km
2cm = 50,000cm neu ½ Km
4cm = 100,000cm neu 1 Km

Trwy lluosi mesur eich cortyn gyda'r raddfa, cewch ateb mwy manwl o bellter

Hyd cortyn = 7cm
7× 25,000 = 175,000cm neu 1.75Km

Rhestr gyfeirio	Wedi wneud ✓
Cael copi o fap dalgylch yr ysgol	
Marcio llwybr taith	
Sicrhau fod y llwybr yn un diogel	
Mesur llwybr y daith	
Gweithio allan hyd y daith	
Gweithio allan amser y daith	

Reit. Mae gennych daith gerdded wedi ei pharatoi, ond mae'n rhaid i daith gerdded fod yn ddifyr a chynnal diddordeb y bobl sydd yn mynd arni. Oes yna ddigon o wahanol fathau o adeiladau ar hyd eich taith i wneud hyn? Gallwch ddefnyddio erthygl Hanes ar y Stryd yn rhifyn 31 o Gwaith Maes i'ch helpu i ddyddio adeiladau a darganfod os oes newidiadau wedi digwydd i'r adeilad dros amser. Gallwch ddefnyddio'r daflen sydd ar ddiwedd yr erthygl honno i'ch helpu ar eich taith gerdded.

Beth am gofnodi enwau difyr tai/strydoedd/stadau tai ar hyd y daith, a cheisio darganfod beth yw eu hystyr wedyn?

Dyna'r gwaith caled wedi ei wneud. Ydych chi yn barod i fynd ar eich taith gerdded?

Nodyn i Athrawon

Efallai fod copiau o becyn Tro ar Fyd (1985-87) gennych yn yr Ysgol. Cynhyrchwyd y rhain gan Gyngor Sir Gwynedd. Byddai "Crefftwyr ddoe a heddiw" yn cydfynd yn dda gyda'r gwaith yma hefyd. Os nad oes gennych gopi, ond hoffech ei weld, yna cysylltwch â ni ac fe anfonwn gopi i chi.